**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH 14EG RHAGFYR 2022**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Jane Roberts (JR), Sara Thomas (ST), Mark Davies (MD), Gwydion Jones (GJ), Einir Williams (EW) & Austin Roberts (AR)
Croesawodd CR Sara Thomas i'r cyfarfod fel cynghorydd newydd yn dilyn ei absenoldeb o'r pwyllgor diwethaf.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 23AIN TACHWEDD 2022**

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MD.

**4 MATERION YN CODI**

Adroddodd AV ei bod hi, MD & JR wedi plannu'r coed yn y fynwent yn dilyn y cyfarfod diwethaf.
Gofynnodd MD os oedd y tap dŵr yn y fynwent wedi ei droi i ffwrdd, CR wedi gofalu am hyn.
Gofynnodd DR os oedd y cofnodion diwygiedig wedi eu rhoi ar y wefan, cadarnhaodd Enlli Vaughan ei bod wedi eu gyrru at Arfon Parry, CR wedi eu gweld ar y wefan.
MD heb gael amser i baentio'r arhosfan bws eto, hyn ar waith.
MGD yn adrodd fod yr hysbyseb swydd clerc yn barod i gael ei hysbysebu.
AV wedi cysylltu efo Cyngor Conwy i gael rhestr cymwysterau ar gyfer cynghorydd newydd.
Carreg fedd ym mynwent Gwytherin wedi disgyn, AV wedi cael pris am ail osod y garreg £275 + TAW gan Cofgolofnau'r Dyffryn. Pawb yn gytun i gario ymlaen efo'r gwaith oherwydd ei fod yn fater brys iechyd a diogelwch y cyhoedd. AV i ofalu trefnu'r gwaith.
EW yn codi fod grant wedi dod allan tuag at Hwb Cynnes yr Eglwys, AR yn cadarnhau fod Gwenda Cooper wedi gwneud cais am y grant ar ran yr Eglwys.
EW wedi hysbysu'r Cyngor Sir fod sedd wag yn Gwytherin yn dilyn marwolaeth Emlyn Williams ac i nodi dymuniadau'r Cyngor i adael y mater tan y flwyddyn newydd.
EW wedi bod mewn cyswllt efo'r Cyngor Sir yn nodi fod yr arian ar gyfer y toiledau/Menter Bro Cernyw yn creu trafferth i'r Cyngor Cymuned pan yn gyrru'r £500 ac wedi gofyn iddynt gadarnhau na fydd hyn yn digwydd eto.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** Dim ceisiadau.

**6 MATERION CYNGOR**

**6.1** EW yn rhoi diweddariad ynglyn â chael biniau bagiau baw cŵn, wedi gyrru ebost i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod efo tri pris. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf ar ôl i bawb gael cyfle i ddarllen y wybodaeth. Pawb yn gytun i fynd ymlaen efo cael y biniau. Gofynnodd CR i AR os oedd angen cael caniatad y Cyngor Sir. Awgrymodd AR y byddai'n gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir yn dilyn y cyfarfod nesaf.

**6.2** Pwyllgor Mynwentydd, CR am gario ymlaen efo'r swyddog claddedigaethau dros dro. MGD yn codi fod swyddogaeth claddedigaethau yn rhan o ddyletswyddau clerc.

**6.3** ST yn cynnig mynychu pwyllgor Llywodraethwyr Bro Cernyw i gynyrchioli buddianau'r Cyngor Cymuned.

**6.4** MGD yn hysbysu fod yr ysgol wedi cadarnhau taw cyfrifoldeb y sir yw'r llain tir ger y cae pêl-droed. DR efo gwaith papur o 1986 am y llain tir yn nodi taw'r Pwyllgor Cae Chwarae oedd berchen y tir. AR am wneud ynholiadau efo'r Awdurdod Addysg. MGD am ofyn wrth y brif athrawes i yrru gohebiaeth yn dangos taw'r Cyngor Sir sydd berchen y tir ymlaen i AR iddo wneud ymholiadau pellach.

Trafodaeth am y cwrt aml-bwrpas hefyd yn berchen i'r Cyngor Sir.

**6.5** EW wedi gwneud ymholiadau efo Un Llais a gofyn am restr cyrsiau sydd ar gael. Cynghorwyr i gadarnhau cyn y cyfarfod nesaf pa gyrsiau y byddant yn fynychu os bydd y rhestr wedi dod i law cyn y cyfarfod nesaf.

AR yn cynnig gofyn wrth Sian Branwen yn y Cyngor Sir pa mor aml sydd angen i'r Cynghorwyr fynychu cwrs Côd Ymddygiad.

**6.6** EW yn cynnig mynychu cyrsiau Un Llais efo DR. EW am hysbysu Un Llais.

## 7 MATERION ARIANNOL

**7.1** DR wedi paratoi dogfen gwariant hyd at ddiwedd Medi, diolchwyd iddi am ei gwaith. Trafodaeth faith am resymeg ar gyfer ffigwr i'w benodi ar gyfer ariannu clerc.

AR yn adrodd fod y Cyngor wedi amcangyfrif fydd diffyg yn nghoffrau'r cyngor oddeutu £23,000,000 fydd yn golygu toriadau a chynydd yn y dreth cyngor.

Gofynnwyd os fydd y sgipiau yn dal i ddod i Llangernyw bob mis gan y Cyngor Sir, AR yn cynnig gwneud ymholiadau os yw hyn yn cario ymlaen.

Trafodwyd a chytuno ar y ffigyrau fel y cofnodwyd yn y ddogfen presept.

Penderfynwyd nodi'r goleuadau fflachio i'r presept ond fod y Cyngor Cymuned yn ariannu £12,000 a £3,000 tuag at y presept. Cyfanswm £31,090. Gofyn am £16,090 gan y Cyngor Sir.

Trafodaeth am or-yrru a soniwyd am bosibl cael system blaenoriaeth.

## 8 GOHEBIAETH

**8.1** Dim wedi dod i law.

## 9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

AR wedi derbyn gohebiaeth fod y Cyngor Sir wedi gwneud asesiad cyflymder mewn 2 safle yn Llangernyw, ddim yn amlwg fod gor-yrru yn Llangernyw ond dal am fynd ymlaen efo'r arwyddion fflachio oherwydd fod y Cyngor Cymuned yn ariannu. Cyngor Sir yn ymchwilio i safleoedd addas i'w gosod ac yn bwriadu ymgynghori efo'r Cyngor Cymuned yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Cyfarfod cynllunio heddiw wedi pasio cais cynllunio Ffion, Lliwedd. Cais i adeiladu tŷ wedi dod i law wythnos yma gan Dewi Mark Williams, gofyn i'r cais ei alw mewn gan y pwyllgor cynllunio.

Trafododd AR tai fforddiadwy yng nghefn gwlad a bydd y broses yma yn newid yn ystod y flwyddyn nesaf.

Wedi perswadio Cyngor Sir i beidio codi premiwm tai gwag ar Tŷ'r Ysgol, Gwytherin.

Yn trefnu cyfarfod efo pwyllgor y Ganolfan a'r gwahanol fudiadau i weld sut fuasai ariannu datblygu'r tŷ yn mis Ionawr.

Ym mhwyllgor llawn y Cyngor wythnos diwethaf, cytunwyd yn unfrydol i godi treth ar ail gartrefi i 50%, bydd hyn yn cael ei adolygu flwyddyn nesaf i weld os y gellir ei godi i 100%.

JR yn gofyn os yw mater Bryn Gwyn wedi ei godi yn y Cyngor Sir, Gerwyn Davies wedi ffonio AR yn uniongyrchol i drafod.

Gofynnodd MD am ddiweddariad am fater Brook House, AR heb glywed dim byd pellach ynglyn â hyn. AR am wneud ymholiad am hyn.
Mater y Stag Yard heb ei alw i mewn oherwydd fod dim gwrthwynebiad wedi dod i law.
Eglurodd AR y broses galw i mewn i'r pwyllgor cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio.
Gofynnodd EW os yw'r dreth yn cael ei godi ar ail gartrefi yn unig neu dai gwyliau hefyd. Cadarnhaodd AR taw ar ail gartrefi yn unig bydd y dreth yn cael ei godi a taw 3% o'r stoc tai sydd yn ail gartrefi.
Gofynnodd CR i AR pwy sydd berchen y gwrych ger y goeden Nadolig. AR yn cymeryd fod y clawdd yn berchen i'r ysgol a fod y gwrych yn berchen i rywun arall. DR yn cadarnhau taw'r Cyngor Sir sydd yn torri'r gwair o flaen y ddau dŷ. Gofynnodd CR os oes modd cael halen ar lwybr y fynwent, AR yn adrodd nad oes posibl cael halen ond fod hawl cymeryd halen o fin halen i wneud.
DR yn adrodd fod cwyn nad oes bin halen ger Fedwen Arian a Parc Aelas. AR am ofyn i'r Cyngor Sir roi bocsys halen yn y ddau safle.

**10 BILIAU**

**10.1** Enlli £173.06, cytunwyd i dalu.

**11 MATERION LLEOL**

**DR** wedi cael bwletin Un Llais yn gofyn wrth gymunedau Cymraeg ymateb i holiadur gan y Llywodraeth ar sut y gellir hyrwyddo Cymraeg yn yr ardal. Atebion angen eu derbyn erbyn 13eg Ionawr 2023. EW wedi gyrru'r ebost ymlaen i'r Cynghorwyr, pawb i'w gwblhau.
**EW** Trafodaeth am y gwrych ger y goeden Nadolig. Cynnig gofyn wrth Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith.
**MD** angen torri'r clawdd ger yr Ardd Goffa a ger Capel Bethabara oherwydd gor-dyfiant. DR yn adrodd fod canghenau ar y goeden yn yr Ardd Goffa wedi marw. CR am gysylltu efo'r AR ynglyn â'r mater yma.
**JR** wedi derbyn cwyn gan Meira Roberts, Rhandir oherwydd dŵr ar allt Gell, wedi hysbysu AR am y mater hwn.
Cwyn arall fod perchnogion newydd tŷ ar y ffordd i fyny am Fedwen Arian wedi gwneud twll yn y clawdd, pryder eu bod yn ceisio gwneud adwy newydd, lleoliad peryglus ar y ffordd. Cododd DR ei fod o fewn ardal cadwraeth.
**AV** yn codi mater prisiau am waith yn mynwentydd Gwytherin gan Kevin Roberts. CR wedi derbyn prisiau gan Kevin Roberts am y gwaith cerrig beddi £312 ym mynwent Seilo a pris am waith tacluso £336 ym mynwent Gwytherin.
Trafodaeth fod y mater yn frys oherwydd diogelwch. Pawb yn hapus i ofyn wrth Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith.
Wedi mynychu cwrs ar y wê yn ddiweddar yn sôn am *time credit* – os yw pobl yn gwirfoddoli, credit yn cael ei roi mewn ffordd talebau neu ddyddiau allan ayyb i'r gwirfoddolwyr. AV am yrru'r ohebiaeth ynglyn â hwn i'r Cynghorwyr er gwybodaeth, angen cofrestru sefydliadau os oes diddordeb.
Angen cael goriad newydd i'r cwpwrdd yn y neuadd.

**12 CYFARFOD NESAF**

25ain Ionawr 2023 yn Gwytherin
Cyfarfod yn dod i ben 9:55pm
Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan